# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Mandy Evans | Adran Etholiadol: | Bonymaen |

| | |
|---|---|
| **Portffolio'r Cabinet/Gweithredol/Swydd Ddinesig/Cyflog Uwch:** | Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Atal a Diwygio Gofal Cymdeithasol |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliwyd cymorthfeydd tair gwaith bob mis. Roeddwn yn aml yn mynd am dro yn y ward yn rheolaidd i gwrdd â'm hetholwyr.

Gweithiais gyda'r holl sefydliadau yn fy ward ac yn Abertawe i ddatblygu perthnasoedd gwaith er mwyn magu hyder a gwella cyfleoedd i'm hetholwyr. Gweithiais gyda'r heddlu, Cymunedau'n Gyntaf, Banc Bwyd Dwyrain Abertawe ac ymwelais ag ysgolion yn fy ward i gefnogi'r disgyblion a'r staff.

Rwyf wedi bod yn gweithio ar faterion parcio o gwmpas yr ysgolion a mannau poblogaidd eraill yn y ward. Ar ben hynny, rwyf wedi bod yn gweithio ar faterion yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a gwaredu tir y cyngor yn y ward.

Rwyf wedi cefnogi'r Cydlynydd Ardaloedd Lleol trwy ei gyflwyno i'r ward.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir y % presenoldeb sy'n seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 3 | / | 5 | 60 | % |
| Y Cyngor | 15 | / | 18 | 83 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 13 | / | 16 | 81 | % |
| Cyd-bwyllgor Ymgynghorol | 5 | / | 5 | 100 | % |
| Panel Llywodraethwyr yr ALl | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Atal a Diwygio Gofal | 7 | / | 7 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Statudol | 5 | / | 7 | 71 | % |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Panel Ymddiriedolwyr | 1 | / | 2 | 50 | % |
| **CYFFREDINOL** | **55** | **/** | **67** | **82** | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Panel Craffu Perfformiad Ysgolion | 0 | / | 1 | 0 | % |
| **CYFFREDINOL** | **0** | **/** | **1** | **0** | **%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Dirprwy Aelod y Cabinet dros Drafnidiaeth
Partneriaethau o Safon, Partneriaethau Statudol o Safon a Chontractau Bws o Safon
Cynllun Trafnidiaeth Integredig
Cyfleusterau Parcio a Theithio
Polisi Parcio Preswylwyr
Llwybrau Beicio/Cynlluniau Gweithredu
Gorfodi Parcio Sifil
Meithrin perthnasoedd â grwpiau i gynyddu ymwybyddiaeth o fynediad i gludiant cyhoeddus.

Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Atal a Diwygio Gofal Cymdeithasol ar 4 adolygiad comisiynu yn y Gwasanaethau i Oedolion:

1) Cofal Cartref
2) Canolfannau Dydd
3) Gofal Preswyl
4) Anableddau Dysgu/Corfforol ac Iechyd Meddwl

Cefnogais Aelod y Cabinet wrth ddatblygu polisi yn y meysydd hyn.

Cyfarwyddwr – Bay Leisure
Ymddiriedolwr-gyfarwyddwr - Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru
Panel Maethu ac aelod o'r Fforwm Magu Plant Corfforaethol lle rwyf wedi bod yn ymwneud â diogelu.

Aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu lle rwyf wedi cael y cyfle i ddatblygu fy ngwybodaeth am drwyddedu.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Ymddiriedolwr Banc Bwyd Dwyrain Abertawe lle, fel gwirfoddolwr, cynorthwyais y banc bwyd trwy geisio cyfraniadau a gweithio gyda sefydliadau i sicrhau partneriaethau er mwyn datblygu a gwella'r gwasanaeth sydd ei angen i gefnogi preswylwyr yn Abertawe sy'n wynebu anawsterau yn yr economi bresennol.

Gweithiais gyda 'Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth' (WMAD), gan gefnogi menywod yn y gymuned i fagu hyder i sefydlu prosiectau cymunedol.

Rhaglen meithrin gallu yw WMAD sy'n addysgu ac yn annog menywod yng Nghymru i gael y sgiliau, yr hyder a'r cyfeiriad meddwl i fod yn arweinwyr yn eu cymunedau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel o fywyd cyhoeddus a gwleidyddol.

Mae'r cyrsiau hyfforddi'n rhad ac am ddim ac yn agored i bob menyw yng Nghymru. Nid oes anhepgorion i ymuno ac rydym yn cefnogi menywod gyda chostau teithio a gofal plant lle y bo angen.

Mae WMAD wedi rhoi'r cyfle i mi annog menywod yn fy ward i fagu hyder a gwneud gwahaniaeth yn fy nghymuned.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r hyfforddiant canlynol:

18/04/2016 - Arweiniad ar yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chraffu ar Newidiadau i'r Gwasanaethau Cymunedol
25/02/2016 - Diogelu Pobl Ddiamddiffyn
05/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Llywodraethwr yn Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed ac Ysgol Gynradd Pentrechwyth.

Euthum i gyfarfod Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Illtyd Sant

Aelod o Fanc Bwyd Dwyrain Abertawe lle gweithiais gyda First Great Western (FGW) a sefydliadau eraill i gael cyfraniadau a chynyddu ymwybyddiaeth i gefnogi'n banc bwyd.

Rwyf wedi mynd i gyfarfodydd Cymunedau'n Gyntaf

Rwyf wedi gweithio gyda phreswylwyr i frwydro yn erbyn materion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y ward.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Dinesig/Uwch: £22,000

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 18.05.2016 |